12/12/18

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ysgrifennaf atoch gyda threfniadau ar gyfer wythnos cyntaf Ionawr sef wythnos yn cychwyn Ionawr 7fed. Fel rydych yn gwybod, cynhelir ffug arholiadau ar gyfer disgyblion Bl 12 ac atodaf amserlen y ffug arholiadau at eich sylw. Ni chynhelir gwersi yn y pynciau sy'n gosod arholiadau a byddwn yn caniatau i'r disgyblion hynny i fynychu'r Ysgol ar gyfer sefyll eu harholiadau yn unig yr wythnos honno. Ni fydd y trefniant hyn yn effeithio ar daliadau LCA eich plentyn.

Fodd bynnag, yn y pynciau ymarferol a galwedigaethol, ni fydd arholiadau gan eich plentyn yr wythnos honno, felly, mae gwersi yn y pynciau canlynol yn parhau: Busnes, Cerdd, Ffotograffiaeth, Gwasanaethau Cyhoeddus, Celf, Gwaith Gof a Datblygiad Plentyn. Felly, disgwylir i'r disgyblion hynny fynychu eu gwersi yr wythnos honno – oni bai wrth gwrs, bod ganddynt arholiad yn un o'r pynciau eraill maen nhw'n astudio, a'r arholiad hwnnw arno yr un pryd â'u gwers ymarferol/galwedigaethol.

Bydd yr Ysgol yn ail-agor ar ôl gwyliau'r Nadolig ar ddydd Mawrth, Ionawr 8fed sef Wythnos 2 ar yr amserlen. Mawr hyderaf fod y trefniadau uchod yn eglur i chi ond peidiwch ag oedi rhag cysylltu â mi gydag unrhyw ymholiad ynglŷn â'r wythnos arholiadau. Dymunaf bob llwyddiant i'ch mab/merch yn ei ffug arholiadau.

Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Yn gywir,

Edwina Rees (Pennaeth Cyfnod Allweddol 5)

12/12/18

Dear Parent/Guardian,

I write to you outlining the arrangements for the first week in January, week commencing January 7th. As you are already aware, we will be holding mock exams for Yr. 12 pupils and the timetable is attached. No lessons will be held in the subjects, where there are exams that week and we will allow those pupils to attend school in order to sit their exams and to go home after their exam if they wish. These arrangements for that week only, will not affect their EMA payment.

However, no exams will be held in the majority of practical and vocational subjects. Therefore, lessons will continue as normal in the following subjects: Business, Music, Photography, Public Services, Forge Work, Art & Design and Child Development. We expect pupils to attend these lessons - apart from those pupils of course, who might have an exam in one of their other subjects, at the same time as a timetabled practical/vocational subject.

School will re-open following the holidays on Tuesday, January 8th, Week 2 of the timetable. I hope that the arrangements outlined above are clear to you but please don't hesitate in contacting me with any further enquiries regarding that week. I wish your son/daughter every success in their mock exams.

May I wish you a very Happy Christmas and a prosperous New Year.

Yours sincerely,

Edwina Rees (Head of Key Stage 5)